DOSBARTHU AR UNWAITH

Cyswllt: Michael Roberts
Ffôn: 01286 685 227
Symudol: 07771 800 848
E-bost: post@delwedd.co.uk

Gwefannau Cymraeg yn rhad ac am ddim!

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi rhoi'r gorau i ddarparu "Grant Hyrwyddo", oedd yn cynnwys darparu 50% o'r costau hyd at uchafswm o £1,000 yn y sectorau preifat a gwirfoddol.

O Fawrth 1af mae cwmni gwe-ddylunio Delwedd, o'u swyddfa yn y Galeri, Caernarfon, wedi penderfynu noddi unrhyw sefydliad sy'n dymuno cael/sydd angen gwefan ddwyieithog, trwy ychwanegu gwefan Gymraeg ei hiaith yn rhad ac am ddim.

Meddai Michael Roberts o gwmni Delwedd: *"Rydym wedi creu gwefannau dwyieithog ar gyfer nifer o'n cleientiaid gyda'r grant. Heb y grant, mae'n anochel y bydd amryw o'n cleientiaid, fyddai wedi ceisio am y grant yn 2009, yn dewis gwefannau uniaith Saesneg. Felly, rydym ni fel cwmni, wedi penderfynu hyrwyddo'r iaith Gymraeg ein hunain, trwy ychwanegu gwefan Gymraeg at unrhyw wefan yn rhad ac am ddim. Mae hyn yn arbed rhwng £200 a £500 i'n cleientiaid, sef cost gyfartalog y grant oedd gynt ar gael gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn ystod 10 mlynedd diwethaf, mae Delwedd wedi noddi sawl 'elusen ac achos da' lleol, trwy ddarparu gwefannau am ddim. Eleni, rydym wedi penderfynu cyfeirio ein nawdd at hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Rydym eisoes wedi cychwyn ar ddwy wefan i gwmnïau sy'n elwa o'r cynnig hwn."*

Bydd Delwedd yn sicrhau bod yr holl waith yn cydymffurfio â chanllawiau a safonau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Caiff y cyfieithiadau eu gwneud gan aelodau cyflawn o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Dywedodd Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg: *"Rydym yn llongyfarch Delwedd ar gynnig y gwasanaeth hwn, ac yn sicr y bydd yn cael ei groesawu'n fawr gan eu cwsmeriaid."*

"Mae ymchwil yn profi bod y cyhoedd yn gwerthfawrogi derbyn gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog, ac yn fwy tebygol o ymddiried yn y gwasanaethau hynny. Mae gwefannau yn ffenestr siop wych ar gyfer busnesau a sefydliadau, ac wrth i bobl fagu'r hyder i ddefnyddio technoleg Cymraeg, mae yna alw cynyddol am wefannau dwyieithog."

Dolenni:
Delwedd - www.delwedd.co.uk

Bwrdd yr Iaith Gymraeg - www.byig-wlb.org.uk
Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru - www.cyfieithwyrcymru.org.uk